# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 7FED MAWRTH, 2016**

**DILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd Mawrth 1af 2016)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Daniels | Annwen Hughes |
| Christopher Hughes | W. Tudor Owen |
| Ann Williams | John Wyn Williams |
| R. H. Wyn Williams | Sedd wag |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Eryl Jones-Williams |
| Angela Russell | Elfed Williams |
| Louise Hughes | |

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| I. Dilwyn Lloyd | Peter Read |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 1 - 3

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2015 fel rhai cywir.

## 5. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL 4 - 6

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol –

12.11.15

## 6. ADOLYGU POLISIAU TACSIS CYNGOR GWYNEDD

Diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 01.12.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr, Annwen Daniels, John Brynmor Hughes, Tudor Owen, Eryl Jones-Williams, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams ac Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ), Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones- Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Craig ab Iago, Annwen Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd a Peter Read.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 14eg o Fedi 2015 fel rhai cywir.

## 5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 02.09.15 a 03.11.15.

## 6. ADOLYGU POLISÏAU CYNGOR GWYNEDD

**- Polisi Trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol**
**- Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Hurio Preifat**
**- Polisi Trwyddedu Gweithredwyr Hurio Preifat**

Cafwyd diweddariad ar lafar gan y Rheolwr Trwyddedu ar y gwaith o adolygu'r polisïau trwyddedu i greu polisi unedig. Atgoffwyd yr aelodau, eu bod yn y Pwyllgor a gynhaliwyd Medi 14eg 2015 wedi

- awdurdodi'r Pennaeth Rheoleiddio i gychwyn adolygiad o'r polisïau trwydded mewn perthynas â gweithredwyr, cerbydau a gyrwyr hacni a hurio preifat.

- cefnogi cyfeiriad cyffredinol Cynigion 1 i 5 fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad.

Nodwyd bod Y Cabinet wedi cytuno gyda'r egwyddorion ac ar yr angen i gysoni'r polisïau cyfredol. Cadarnhawyd bod yr Uned Trwyddedu wedi dechrau adolygu'r polisïau a bod y gwaith ymchwil eisoes wedi amlygu materion oedd angen sylw.

Un o'r materion oedd bodolaeth 'is-ddeddfau'. Nodwyd bod y polisïau presennol wedi eu derbyn yn 2010, er mai yn 2003 y cawsant eu hadolygu yn eu cyfanrwydd. Yn fersiwn 2003 mae amodau yn cyfeirio at is-ddeddfau, ond yn addasiad 2010 nid oes cyfeiriad at yr is-ddeddfau hyn. Drwy gydweithio gyda'r Uned Gyfreithiol, darganfuwyd bod yr is-ddeddfau yn parhau mewn bodolaeth ac felly rhaid sicrhau bod rhain yn cyd fynd â'r polisïau yn drefnus a chywir. Atgoffwyd yr aelodau bod rhaid cael is-ddeddfau er mwyn sicrhau amodau i yrwyr cerbydau hacni.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth,
- sicrhau eglurder a rheolaeth yng nghyd destun is-ddeddfau
- cytuno bod angen tacluso'r polisïau i leihau dryswch
- edrych ar yr hyn mae Cynghorau eraill yn ei weithredu.

Gwnaed sylw ar y defnydd o 'waledi oren', lle awgrymwyd cynnwys '*hyfforddiant ar gefnogaeth i gwsmeriaid bregus / anabl / dall*' fel amod gyrrwr tacsi. Mewn ymateb, nodwyd bod rhai Cynghorau eisoes yn mabwysiadu'r hyfforddiant fel amod a bod modd i Wynedd ystyried hyn fel rhan o'r prawf gwybodaeth y mae'n rhaid i bob gyrrwr ei gwblhau.

Mewn sylw at newidiadau posib i'r Mesur Mewnfudo (Immigration Bill), lle bydd rhaid i ymgeisydd, wrth wneud cais am drwydded gyrrwr tacsi, dystiolaethu ei hawl i weithio yn y wlad a dim 'trosedd mewnfudo', nodwyd y bydd angen addasu'r polisïau yn amodol ar benderfyniad Tŷ'r Cyffredin.

**PENDERFYNWYD**

**Cefnogi'r Uned Drwyddedu i barhau ar eu hadolygiad o'r polisïau trwyddedu gan gydweithio gyda'r Uned Gyfreithiol i sicrhau eglurder a rheolaeth dros yr is ddeddfau.**

**Bod angen mabwysiadu 'hyfforddiant ar gefnogaeth i gwsmeriaid bregus / anabl / dall' fel amod gyrrwr tacsi ac fel rhan o'r prawf gwybodaeth sydd angen ei gwblhau.**

Diolchwyd i'r Uned Trwyddedu am eu gwaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.00pm a daeth i ben am 3.25pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
# DYDD IAU, 12 TACHWEDD 2015

**YN BRESENNOL:**

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Hughes, W. Tudor Owen (Cadeirydd) ac Angela Russell

**SWYDDOGION:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Tudor Owen. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

**5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT - MR A**

a) Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

b) Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd. Nodwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno, ac oherwydd bod troseddau perthnasol i'r maes trwyddedu wedi eu cynnwys ar y datganiad, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Amlygwyd bod gan yr ymgeisydd drwydded yrru lân ers 2011.

c) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais. Cyflwynodd dau lythyr oedd yn rhoi geirda iddo. Cydnabuwyd bod y troseddau a ddatgelwyd yn gywir. Ymhelaethodd ei fod yn chwilio am waith er mwyn cefnogi ei deulu a'i fod wedi cael cynnig swydd gyda chwmni tacsi lleol.

ch) Ymneilltuodd yr ymgeisydd o’r ystafell tra bu i aelodau’r Is-bwyllgor drafod y cais.

d) Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd yn berson priodol ac addas i dderbyn trwydded yrru cerbyd hacni / hurio preifat, a caniatawyd y cais. Teimlai’r Is-bwyllgor bod y troseddau yn rai oedd wedi digwydd tu allan i gofnod y canllawiau perthnasol. Dymunwyd y gorau i’r ymgeisydd yn ei swydd newydd ac anogwyd ef i gadw at y rheolau a pharhau gydag agwedd gyfrifol

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

## 6. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT - MR B

a) Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

b) Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o’r newydd. Nodwyd bod datganiad o gollfarnau wedi eu cyflwyno ynghyd a gwybodaeth gan Heddlu Gogledd Cymru ac Uned Drwyddedu’r Cyngor. Gofynnwyd i’r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â’r cofnod DBS, ac yn unol â’r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ynghyd.

c) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais. Cydnabuwyd bod y wybodaeth a ddatgelwyd yn gywir a chadarnhaodd bellach nad oedd yr achos llys yn mynd yn ei flaen. Ymhelaethodd ei fod eisiau parhau fel gyrrwr tacsi ac mai'r rheswm na adnewyddwyd ei drwydded oedd oherwydd bod yr ohebiaeth yn mynd i gyfeiriad gwahanol. Nododd ei fod wedi cael cynnig swydd gyda chwmni tacsi lleol a'i fod yn y cyfamser yn gwneud gwaith gwirfoddol.

ch) Yn cefnogi cais Mr B roedd Perchennog y Cwmni Tacsi ac fe gadarnhaodd bod yr ymgeisydd wedi bod yn gweithio iddo ers 6 mlynedd ac wedi cael ei ryddhau fel gyrrwr gan nad oedd wedi adnewyddu ei drwydded. Nodwyd bod yr ymgeisydd yn berson dibynadwy iawn a bod swydd ar gael i Mr B petai’r drwydded yn cael ei chaniatáu.

d) Ymneilltuodd yr ymgeisydd a pherchennog y Cwmni Tacsi o’r ystafell tra bu i aelodau’r Is-bwyllgor drafod y cais.

dd) Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynodd yr Is-bwyllgor ohirio eu penderfyniad o’r cais. O dan yr amgylchiadau, ac yn unol â pharagraff 14.1 o’r Polisi Trwyddedu ar gyfer Cerbydau Hacni a Hurio Preifat, penderfynodd yr is-bwyllgor ohirio ystyriaeth o’r cais hyd nes bod unrhyw achos erlyn am gyhuddiadau uchod wedi dod i ben.

**PENDERFYNWYD gohirio penderfyniad cais Mr B am drwydded hacni/hurio preifat.**

## 7. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT - MR C

a) Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

b) Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr C am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd. Nodwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno yn cynnwys sawl trosedd berthnasol yn y maes trwyddedu ynghyd a gwybodaeth ychwanegol gan Cyngor Môn. Amlygwyd mai argymhelliad yr Uned Trwyddedu oedd nad oedd Mr C yn berson addas i'w ystyried fel gyrrwr cerbyd hacni / hurio preifat yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol ynghyd.

c) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais. Cydnabuwyd bod y wybodaeth a ddatgelwyd yn gywir. Ymhelaethodd ar ei gais gan nodi ei fod eisiau gweithio fel gyrrwr tacsi yng Ngwynedd gan nad oedd un diwrnod o waith gyda Mon yn ddigonol.

ch) Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

d) Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynodd yr Is-bwyllgor nad oedd yr ymgeisydd yn cwrdd â'r anghenion fel person addas i'w drwyddedu fel gyrrwr cerbyd hacni / hurio preifat yng Ngwynedd gan fod rhai o'r collfarnau yn parhau o fewn cyfnod y canllawiau perthnasol.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais Mr C am drwydded hacni/hurio preifat.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr a hysbysebwyd yr ymgeisydd o'i hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 4.30 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**